**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JJ/PO/104/24

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

SeneddHinsawdd@Senedd.Cymru

15 Mawrth 2024

Annwyl Llyr

Diolch am eich llythyrau dyddiedig 11 Ionawr ac 8 Mawrth yn gofyn am ragor o wybodaeth am safle Ffos y Frân. Hoffwn ymddiheuro am yr oedi cyn ymateb.

*1. Dywedwyd mai dim ond £15 miliwn yr oedd y cwmni mwyngloddio wedi'i neilltuo ar gyfer gwaith adfer. Yn eich llythyr, rydych yn cyfeirio at hyn fel "blaendal o £15 miliwn" sydd i fod i "ariannu rhywfaint o waith adfer os na fydd gweithredwr y safle yn cydymffurfio â'r amodau adfer". A yw'n wir nad yw'r cwmni mwyngloddio wedi neilltuo unrhyw arian y tu hwnt i'r blaendal blaenorol?*

Dim ond Merthyr (South Wales) Ltd sydd yn gwybod faint o gyllid y maent wedi ei neilltuo er mwyn adfer y safle. Yn ôl y cyfrifon diwethaf a gyflwynwyd i Dŷ'r Cwmnïau, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2021, roedd y cwmni yn darparu ar gyfer ychydig dros £71 miliwn ar gyfer rhwymedigaethau. Nid yw'n eglur faint o'r ffigur hwn sy'n dal ar gael ar gyfer gwneud gwaith adfer, ac nid yw'n eglur 'chwaith a yw'n cynnwys y £15 miliwn sydd ar gadw mewn cyfrif ysgrow gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, y cyfeiriais ato yn fy ngohebiaeth flaenorol fel "blaendal o £15 miliwn". Mae'r cwmni'n amharod i ryddhau manylion y cytundeb sydd ganddo gyda'r Cyngor a fyddai'n egluro sut mae'r cyllid sydd mewn ar gadw mewn ysgrow yn cael ei ryddhau. Mae'n dal i beri pryder i mi nad yw'r cwmni'n fodlon rhannu gwybodaeth ynghylch gweithrediad a chyflwr y safle.

*2. Amcangyfrifir bod y costau adfer ar gyfer y safle yn amrywio o £120 miliwn i £175 miliwn. Pa asesiad, os o gwbl, y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o gyfanswm y gost adfer ar gyfer safle Ffos-y-Frân?*

Fel rhan o'u rôl yn monitro gwaith o dan y caniatâd cynllunio, mater i'r Cyngor fu adolygu cynlluniau'r gwaith adfer. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud asesiad o gyfanswm costau adfer safle Ffos y Frân y tu hwnt i'r hyn oedd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

‘Ymchwil i’r methiant i adfer safleoedd glo brig yn Ne Cymru’ (“yr adroddiad ymchwil”), sy’n rhoi amcangyfrif o gostau yn seiliedig ar yr wybodaeth oedd ar gael ar y pryd.

*3. Pa fesurau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y cwmni mwyngloddio yn cyflawni ei rwymedigaethau ariannol o ran adfer? Pa gynllunio wrth gefn a wnaed rhag ofn y bydd y cwmni’n methu â chyflawni’r rhwymedigaethau hyn?*

Mae’r polisi a’r canllawiau ym Mholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo (MTAN 2) yn nodi’n glir fod yn rhaid i weithredwyr fodloni eu rhwymedigaethau adfer. Hon yw’r sail allweddol sy’n gwneud dyfarnu caniatâd cynllunio’n bosibl.

Amodau cynllunio yw’r brif ffordd o sicrhau bod tir sydd wedi ei effeithio gan echdynnu mwynau yn cael ei adfer i ansawdd uchel sy’n addas ar gyfer yr ôl ddefnydd a gytunwyd ar gyfer y safle, ac ar y cyfle cynharaf posibl. Dylai gweithredwyr a pherchnogion tir sicrhau bod digon o gyllid wedi ei neilltuo i’w galluogi i ddiwallu rhwymedigaethau adfer a dylai’r awdurdod cynllunio lleol ofyn am sicrwydd ariannol, er mwyn sicrhau bod y gwaith adfer yn cael ei gyflawni’n llwyr.  Gallant wneud hyn drwy rwymedigaeth adran 106 fel rhan o gymeradwyo caniatâd cynllunio. Mae Deddfau Lleol yn gymwys mewn ardaloedd penodol (Deddf Dyfed (1987), Deddf Gorllewin Morgannwg (1987), Deddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol (1987)), sy’n galluogi gosod systemau sicrwydd ariannol a bondiau fel amod ar ganiatâd cynllunio ar gyfer pyllau glo, felly os nad oes bond yn ei le, ni fyddai caniatâd cynllunio yn cael ei roi, a gellid erlyn cwmnïau nad ydynt yn cyflawni eu rhwymedigaethau ariannol.

*4. Yn eich llythyr, gwnaethoch ddweud, yn absenoldeb cyllid digonol, mai cyfrifoldeb y Cyngor fyddai gwneud y safle’n ddiogel ac, yn y tymor hwy, cwblhau’r gwaith adfer. Fe wnaethoch egluro bod trafodaethau amlasiantaeth ar y gweill i baratoi trefniadau wrth gefn pe bai'r safle'n cael ei adael. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed?*

Er mai cyfrifoldeb y Cyngor yw sicrhau bod y safle’n ddiogel a chwblhau gwaith adfer os bydd gweithredwr y safle a’r tirfeddiannwr yn mynd i ddwylo’r gweinyddwyr, rydym wedi cynnig cymorth a chredwn fod ganddynt yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt gennym ni i baratoi trefniadau wrth gefn. Mae’r cymorth amlasiantaeth i’r Cyngor wedi parhau drwy gyfarfodydd misol gyda’r swyddogion.

*5. Pa fathau o gytundebau sy’n bodoli ledled Cymru i ariannu’r gwaith o adfer safleoedd ar ôl i weithrediadau ddod i ben? A ydych yn fodlon bod digon o fesurau diogelu ar waith i sicrhau bod yr arian yn ddigonol ar gyfer adfer neu wella’r safle yn llawn?*

Yn fy ateb i gwestiwn 3, rwy’n nodi’r systemau ar gyfer sicrhau’r gwaith o adfer. Yn yr adroddiad ymchwil, ystyriwyd effeithiolrwydd y dulliau amrywiol, a nodwyd yr anawsterau oedd ynghlwm wrth osod bond neu drefniadau yswiriant priodol.  Er y credaf y byddai’r fframwaith deddfwriaethol yn sicrhau camau diogelwch priodol petai safleoedd newydd yn dod i’r amlwg, rwy’n siomedig bod yn rhaid i ni ymdrin â’r gwaddol sy’n deillio o arferion gwael. Mae’r trefniadau preifateiddio a wnaed gan Lywodraeth y DU i roi imiwnedd i gwmnïau rhag gofynion o ran bond am gyfnod o 10 mlynedd a’r diwylliant sydd ynghlwm wrth hyn wedi cael effaith ddybryd ar allu cyrff cyhoeddus i sicrhau cronfeydd a mesurau diogelu i sicrhau adfer llawn. Ar draws y meysydd glo mae cwmnïau wedi blaenoriaethu elw ar draul eu cyfrifoldeb i’w cymunedau. Mae difyg cyllid yn effeithio ar safleoedd sy’n golygu bod angen gwneud penderfyniadau anodd ac anfoddhaol ynghylch cynlluniau adfer diwygiedig.

*6. A oes safleoedd gwaith glo brig gweithredol neu anweithredol penodol sy’n peri pryder penodol nad yw’r arian a gronnwyd (trwy fondio a mecanweithiau eraill) yn ddigon i dalu ar*

*gyfer y rhwymedigaethau ariannol sy’n gysylltiedig ag adfer ac ôl-ofal yn unol â’r amodau cynllunio y cytunwyd arnynt?*

Edrychodd yr adroddiad ymchwil ar y mwyafrif o safleoedd glo brig ledled Cymru, a nodwyd y risgiau oedd yn gysylltiedig ag adfer y safleoedd hynny.

*7. A yw Llywodraeth Cymru wedi gwn eud unrhyw waith ar faterion yn ymwneud ag adfer safleoedd glo brig ers ei hadroddiad yn 2014 “Ymchwil i'r methiant i adfer safleoedd glo brig yn Ne Cymru”? Pa gamau, os o gwbl, a gymerodd Llywodraeth Cymru yng ngoleuni canfyddiadau’r adroddiad?*

Yn 2016, fe wnaeth Llywodraeth Cymru a’r Awdurdod Glo weithio gyda rhanddeiliaid er mwyn paratoi canllawiau arferion da ar gyfrifo, cronni a rheoli bondiau er mwyn ceisio sefydlu sail gyson ar gyfer trafodaethau ledled Cymru. https://www.llyw.cymru/adfer-pyllau-glo-brig-canllawiau

*8. Yn eich llythyr, rydych chi'n cyfeirio at sawl rhaglen a menter sydd â'r bwriad o gefnogi cynweithwyr ar y safle. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y gwaith hwn a'i lwyddiant hyd yn hyn wrth ddod o hyd i gyflogaeth arall ar gyfer y gweithlu?*

Deallaf fod galw mawr am y bobl sydd wedi colli eu swyddi yn sgil eu sgiliau a’u profiad, felly mae’r rhan fwyaf ohonynt eisoes wedi sicrhau swyddi newydd.

Mae sefydliadau cymorth wedi bod yn trafod yn uniongyrchol â’r cwmni ac â gweithwyr unigol er mwyn tynnu eu sylw at y cymorth sydd ar gael iddynt ac rydym yn parhau’n ymrwymedig i sicrhau y gall unrhyw un a allai elwa ar y cymorth hwnnw fanteisio arno.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change